# MODIWL 1A RHAN D: Y PRIF FRIDIAU CIG EIDION NODIADAU ATHRAWON

## CYFLWYNIAD

Pwrpas yr uned yma yw

- Adnabod y prif fridiau cig eidion
- Ystyried rhinweddau a ffaeleddau y bridiau hynny.

Ar ddiwedd yr uned bydd y myfyriwr yn gallu adnabod bridiau sy'n bwysig mewn wahanol rannau o'r byd.

## GEIRIAU ALLWEDDOL

Bridiau
Rhinweddau a Ffaeleddau
Pwysau
Tarddiad

## ADNODDAU

- Ffeithlen
- Adnoddau ar y we

## GWEITHGAREDDAU ADDYSGU I ROI TYSTIOLAETH BOD DYSGU WEDI DIGWYDD

1. Darparu llun o frid penodol gyda'r myfyriwr yn disgrifio rhinweddau/ffaeleddau'r brid ac unrhyw wybodaeth perthnasol arall.
2. Disgrifio un sustem cynhyrchu cig eidion a chael y myfyriwr i ddewis brid addas:-
    a. Gwartheg sugno yn yr ucheldir ym Mhrydain
    b. Gwartheg sugno llawrgwlad ym Mhrydain
    c. Sustem gynhyrchu 18 mis
    d. Sustem gynhyrchu cig eidion ar silwair
    e. Iard fwydo